# Cynhyrchu siarcol (golosg) mewn coetir

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â'r gweithgareddau sy'n ofynnol i gynhyrchu siarcol (golosg) mewn coetir.

Mae gweithgareddau'n cynnwys y canlynol:

- nodi rhywogaethau pren addas i wneud siarcol
- lleoli safle ar gyfer odyn
- llosgi a pharatoi'r siarcol ar gyfer y farchnad.

Mae'n rhaid i'ch gwaith gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth, codau ymarfer, safonau'r diwydiant a chanllawiau perthnasol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael y wybodaeth berthnasol i gyflawni'r gweithgareddau gwaith yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
2. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac iechyd a diogelwch pobl eraill bob amser, yn unol â'r ddeddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol
3. asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r safle a'r gwaith sydd i'w gyflawni, cyn dechrau gweithio a thrwy gydol y gweithgaredd
4. dewis y dulliau gweithio mwyaf diogel, yn unol â'r risgiau a aseswyd a gweithdrefnau sefydliadol, a chynllunio gwaith yn unol â hynny
5. cadarnhau diogelwch y cyhoedd a gweithwyr eraill yng nghyffiniau ardal y gwaith
6. cadarnhau bod y cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol ar gyfer y gwaith i'w gyflawni yn cael ei wisgo drwy'r amser
7. nodi a pharatoi safle addas yn y coetir ar gyfer yr odyn
8. nodi'r rhywogaethau pren i'w llosgi i gynhyrchu siarcol
9. gwirio bod y pren yn ddigon sych i'w losgi
10. penderfynu ar faint o bren i'w losgi, i fodloni'r allbwn siarcol sy'n ofynnol
11. paratoi pren yn briodol ar gyfer y math o losgi
12. paratoi a chynnau'r odyn
13. cynnal a rheoli'r llosgi i sicrhau ansawdd y siarcol sy'n cael ei gynhyrchu
14. caniatáu i'r odyn oeri'n ddigonol cyn tynnu'r siarcol
15. graddio a bagio'r siarcol sy'n cael ei gynhyrchu
16. gwahanu llwch a gronynnau mân
17. lleihau difrod i'r safle a'r ardal gyfagos, neu darfu arnynt, wrth wneud y gwaith hwn a chadarnhau bod y safle'n cael ei adael mewn cyflwr diogel a thaclus
18. gweithredu agweddau arfer gorau at gynaliadwyedd sy'n briodol i'r gwaith sy'n cael ei gyflawni

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i nodi a chael at wybodaeth sy'n berthnasol i'r gwaith gofynnol
2. sut i nodi peryglon ac asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r safle a'r gwaith i'w wneud
3. y gweithdrefnau iechyd a diogelwch a'r Systemau Gweithio Diogel perthnasol
4. y ddeddfwriaeth a'r codau ymarfer, safonau a chanllawiau'r diwydiant, polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau sefydliadol, moeseg busnes a moeseg proffesiynol presennol sy'n berthnasol i'ch maes gwaith ac y mae'n rhaid i chi gadw atynt
5. y marchnadoedd targed ar gyfer y siarcol
6. y math o dir mewn coetir sy'n fwyaf addas i leoli odyn
7. y gwahanol fathau o odyn siarcol a dulliau o'u llwytho a'u cynnau
8. nodweddion rhywogaethau pren ac effeithiau'r rhywogaethau ar ansawdd y siarcol sy'n cael ei gynhyrchu
9. am ba hyd y dylai pren gael ei sychu cyn llosgi a sut mae hyn yn amrywio rhwng rhywogaethau
10. sut mae'r ffordd o bentyrru pren yn effeithio ar y broses sychu
11. y gostyngiad ym mhwysau a chyfaint y cordiau pren sy'n cael eu llosgi ar gyfer siarcol
12. effaith cynnwys lleithder, rhywogaeth, gwerth y pren a'r broses losgi
13. y newidiadau sy'n digwydd trwy gydol y broses losgi
14. y dulliau o reoli'r broses losgi
15. arwyddocâd lliw'r mwg ar adegau gwahanol
16. defnydd arall ar gyfer llwch a gronynnau mân
17. sut i storio odyn yn ystod cyfnodau hir pan na chaiff ei defnyddio
18. effaith bosibl y gwaith ar y safle a'r ardal gyfagos a sut gellir lleihau'r effaith hon
19. eich cyfrifoldeb chi a chyfrifoldeb y sefydliad am amddiffyn yr amgylchedd a gweithio'n gynaliadwy

## Geirfa

Gallai **gwybodaeth** sy’n ofynnol i gyflawni gweithgareddau gwaith gynnwys:

- lluniadau
- cynlluniau
- amserlenni
- manylebau
- datganiadau dull
- Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOPs)
- cyfarwyddiadau’r gwneuthurwr
- gofynion y cwsmer
- gofynion sicrhau ansawdd
- safonau’r diwydiant (e.e. Safonau Prydeinig)
- cyfarwyddiadau ar lafar neu yn ysgrifenedig
- canllawiau’r diwydiant (e.e. FISA)

Mae **gweithdrefnau sefydliadol** yn cyfeirio at weithdrefnau sydd wedi’u gosod gan y sefydliad sy’n eich cyflogi neu’r sefydliad rydych chi’n gwneud y gwaith ar ei ran (y cleient neu’r cwsmer)

**System Weithio Ddiogel (SSoW)** – dyma ddull gweithio sy’n rhoi mesurau rheoli ar waith sy’n deillio o asesiad risg, er mwyn rheoli peryglon a nodwyd, a rhennir y mesurau hyn yn bedair elfen: person diogel; cyfarpar diogel; lle diogel; ac arfer diogel.

Cynhyrchu siarcol (golosg) mewn coetir

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Ebr 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Ebr 2029 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANTw60 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Prysgoedio |
| **Cyfres/Set** | Gwaith coed |
| **Geiriau Allweddol** | siarcol; odyn; llosgi; coetir |